



Cyfleoedd Ariannu

Mehefin 2022



Bwletin ar ddeholiad o gyfleoedd ariannu cyfredol

Mae Tîm Ariannu'r Economi yn darparu gwasanaeth sy'n datblygu prosiectau ac yn eu cynghori am gyllid allanol. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio a nodi cyfleoedd i wneud cais am gyllid a chefnogi ceisiadau am brosiectau.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn unrhyw un o'r cyfleoedd a gyhoeddir yma, byddwn yn falch o ddarparu rhagor o wybodaeth. Gallwn hefyd roi cyngor ar baratoi ceisiadau a helpu i nodi partneriaid prosiect posibl, os oes angen. Mae gennym fynediad at adnoddau penodol fel GRANTfinder i helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllid posibl.

Cysylltwch â Thîm Ariannu'r Economi: funding@powys.gov.uk

Ewch i wefan y Tîm Adfywio yng <http://www.growinpowys.com>

Hoffwch ni ar Facebook  <https://www.facebook.com/GrowInPowys>

Dilynwch ni ar twitter  <https://twitter.com/growinpowys>

Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru

Manylion: Ebrill 2020, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn blaenoriaethu prosiectau ariannu a sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau drwy bandemig COVID-19.

Bydd y Gronfa yn blaenoriaethu ceisiadau oddi wrth:

- Sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd mewn perygl mawr o ganlyniad i COVID-19
- Sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau sydd fwyaf tebygol o wynebu mwy o alw a heriau o ganlyniad uniongyrchol i fesurau i atal COVID-19
- Sefydliadau sy'n cysylltu cymunedau ac yn eu cefnogi i gydweithio i ymateb i COVID-19

Mae grantiau o rhwng £300 a £10,000 ar gael.

Pwy all wneud cais: Croesewir ceisiadau gan:

- Mudiadau gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys:
 - Elusennau cofrestredig
 - Grwpiau a chlybiau â chyfansoddiad
 - Cwmnïau dielw a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Ysgolion
- Cyrff statudol (gan gynnwys cynghorau tref, plwyf a chymuned).

Beth yw ei ddiben: Mae'r costau cymwys yn cynnwys:

- Costau hyfforddi
- Treuliau gwirfoddolwyr
- Costau staff
- Mân prosiectau cyfalaf

- Cludiant
- Digwyddiadau untro
- Cyfarpar
- Cyfleustodau/costau rhedeg

Dyddiad cau: Dim dyddiad cau

Rhagor o Wybodaeth:

<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales#section-4>

Sefydliad Moondance – Cronfa Lliniaru COVID-19

Manylion: Mae Sefydliad Moondance yn cynnig grantiau i helpu elusennau Cymru i barhau â'u gweithrediadau yn ystod yr argyfwng coronafeirws. Bwriad y cyllid yw cefnogi elusennau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn drwm; y rhai sy'n wynebu tarfu ar eu gweithgareddau a gwasanaethau, costau uwch, a llai o ffynonellau refeniw, a'r angen i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio. Nid oes swm grant penodol, dyfernir cyllid yn ôl disgrisiwn yr Ymddiriedolwyr.

Pwy all wneud cais: Elusennau cofrestredig sydd wedi'u lleoli ac sy'n gweithio yng Nghymru.

Beth yw'r diben: Gellir defnyddio grantiau i gefnogi elusennau gyda'r canlynol:

- Cadw staff
- Gweithgareddau a gwasanaethau cyfredol sydd mewn perygl
- Esblygiad gwasanaethau i addasu i'r argyfwng presennol.

Dyddiad cau: Dim dyddiad cau.

Rhagor o Wybodaeth: <https://moondancefoundation.org.uk/c19fund>

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Manylion: Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm drwy gytundeb rhwng Stadiwm y Mileniwm ccc a Chomisiwn y Mileniwm pan adeiladwyd y Stadiwm. Cynhyrchir incwm yr Ymddiriedolaeth drwy ardoll ar bob tocyn a brynir ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus yn y Stadiwm. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydliad i Gymru gyfan a waeth beth fo'r digwyddiad cyhoeddus sy'n digwydd yn y Stadiwm, dyrennir yr holl arian a ddosberthir gan yr Ymddiriedolaeth i wneud gwahaniaeth i bobl yng Nghymru.

Mae grantiau ar gael i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru i gefnogi chwaraeon, y celfyddydau, y gymuned a'r amgylchedd.

Pwy all wneud cais:

- Sefydliadau elusennol.
- Mudiadau gwirfoddol o gyfansoddiad priodol.
- Sefydliadau dielw.
- Grwpiau gwirfoddol sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol (ni all ymgeisydd fod yn awdurdod lleol).
- Grwpiau o unrhyw oedran.

Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n gwasanaethu grwpiau a chymunedau sy'n dioddef o'r anfantais fwyaf.

Beth yw'r diben: Drwy ei chyllid, nod yr Ymddiriedolaeth yw gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Yn benodol, nod yr Ymddiriedolaeth yw hyrwyddo addysg, hanes, iaith, diwylliant, cerddoriaeth a llên gwerin, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu gwahaniaethu neu anfantais.

Dyddiad cau: 1 Medi 2022

Rhagor o Wybodaeth: www.millenniumstadiumtrust.org.uk

Grantiau Bach Hud

Manylion: Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Localgiving and Postcode yn cydweithio eto yn 2022 i ddarparu grantiau bach i elusennau a grwpiau cymunedol lleol bychain yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Pwy all wneud cais:

- Byddwch yn gymwys i ymuno â Localgiving
 - Drwy fod â nodau elusennol â'r bwriad i wneud mwy na hyrwyddo crefydd.
 - Drwy weithredu ar fentrau cymunedol lleol/rhanbarthol a pheidio â bod yn elusen genedlaethol.
 - Drwy bod â chyfrif banc yn y DU yn enw'r grŵp.
- Grwpiau ag incwm blynyddol o dan £250,000 neu rai sydd yn eu blwyddyn gyntaf o weithredu.

Gall y sefydliadau canlynol wneud cais:

- Elusennau sy'n gofrestredig naill ai gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr neu Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR).
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs).
- Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs, SCIOs).
- Mentrau cymdeithasol.
- Sefydliadau cymunedol dielw eraill.
- Sefydliadau elusennol sy'n ysgolion neu'n gysylltiedig ag ysgolion.

Beth yw'r diben: Mae'r Gronfa Grantiau Bach Hud yn rhoi cyfle i elusennau a grwpiau cymunedol lleol gael gafael ar gyllid i lansio neu ddarparu eu gwasanaethau.

Dyddiad cau: 31 Hydref 2022

Gwbodaeth Bellach: www.localgiving.org/about/magic-little-grants

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol – Cronfa Ymateb Covid-19

Manylion: Mae grantiau ar gael i sefydliadau cymunedol a sector cyhoeddus yn y DU ar gyfer prosiectau i ddiogelu asedau treftadaeth o bwys cenedlaethol sydd mewn perygl oherwydd effaith coronafeirws (COVID-19).

Pwy all wneud cais: Derbynnir ceisiadau gan elusennau, sefydliadau dielw, a sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am ased o bwysigrwydd eithriadol i dreftadaeth genedlaethol y DU sydd dan fygythiad oherwydd effaith coronafeirws (COVID-19)

Beth yw'r diben: Diben y gronfa yw helpu i ddiogelu ac achub asedau treftadaeth pwysicaf y DU sydd mewn perygl oherwydd pandemig COVID-19.

Dyddiad cau: Mae'r cyllid hwn ar gael tan ddiwedd mis Ebrill 2023. Nid oes terfynau amser ar gyfer ceisiadau

Gwybodaeth Bellach: www.nhmf.org.uk/funding/covid-19-response-fund

Sefydliad y Cyn-filwyr

Manylion: Mae grantiau ar gael i gefnogi elusennau a sefydliadau dielw sy'n darparu cymorth gydol oes i'r rhai mewn angen ymhlith personél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a'u teuluoedd agos.

Pwy all wneud cais: Gall pob elusen gofrestrdig a sefydliadau eraill sy'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog (cyn-filwyr, y rhai sy'n gwasanaethu a dibynyddion uniongyrchol), gan gynnwys cyn-forwyr sydd wedi gwasanaethu ar weithrediadau, wneud cais.

Ymhlith y mathau cymwys o sefydliadau mae:

- Elusennau.
- Sefydliadau di-elw, gan gynnwys CICs cyfyngedig drwy warant.
- Prosiectau cymunedol.

Rhoddir blaenoriaeth i elusennau a sefydliadau sy'n gallu dangos eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu cymorth i'r rhai mewn angen, yn ogystal â sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn dda ar gyfoeth isel i ganolig.

Beth yw diben: Nod y Sefydliad yw helpu elusennau a sefydliadau eraill sy'n cefnogi aelodau sy'n gwasanaethu a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog Prydeinig, ac weithiau eu dibynyddion, sydd mewn angen.

Mae buddiolwr cymwys posibl sydd "mewn angen" yn un neu'r cyfan o'r canlynol:

- Rhywun o dan anfantais o'i gymharu â dinasyddion nad ydynt yn y lluoedd arfog, oherwydd eu gwasanaeth.
- Rhywun sy'n dioddef o heriau fel y canlynol: diweithdra, digartrefedd, salwch meddwl a chorfforol, anafiadau, lles gwael, henaint, colli rhiant, dibyniaeth, a diffyg addysg plentyn.
- Dylai grantiau ddod â budd i fuddiolwyr ar y cyd a/neu'n unigol; maent yn estyn llaw, nid cardod.

Dyddiad cau: 26 Awst 2022 / 14 Tachwedd 2022

Gwybodaeth Bellach: www.veteransfoundation.org.uk